



Cyfarfod cynllunio i baratoi ar gyfer cyfarfod gyda Gweinidog yr Economi

Dydd Mawrth 15 Chwefror 2022,

10:10 – 11:45

Nodiadau Cyfarfod

1. Croeso a chyflwyniadau
 - Nodwyd yr ymddiheuriadau
2. Nodiadau o'r Cyfarfod Gweinidogol diwethaf ar 01.11.21
 - Cytunwyd fod y nodiadau'n gywir
 - Rhoddodd TW ddiweddariad ar y cam gweithredu a nodwyd yn y cofnodion a chytunwyd fod LLC yn rhoi sylw iddo.
3. Trafodaeth ynghylch cynrychioli mudiadau celf a chwaraeon
 - Gwnaeth MW o WSA gyflwyno eitem ac amlinellodd yr anhawster cynyddol y mae mudiadau chwaraeon a chelf yn ei gael i ddod o hyd i leoliadau addas a fforddiadwy.
 - Cynhaliwyd trafodaeth ar faterion trawsbynciol, yn cynnwys CAT, hawliau cymunedol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
 - Cytunwyd y byddai papur ar hwn yn cael ei lunio o dan arweiniad MW.
4. Trafod a chytuno ar bapurau ar gyfer Cyfarfod Gweinidogol 27.04.22
 - Cyflawni Economi Natur Bositif drwy Atebion ar sail Natur'
Cyflwynodd TW y cynnig i fwrw ati â phapur i ddangos y
cysylltiadau â phortffolio'r economi o'r gwaith hwn. Dilynyd hyn

â thrafodaeth ar feysydd cynhwysiant eraill posibl. Cytunwyd y byddai TW yn llunio papur i bawb roi sylwadau arno.

- Papur Gwyn Codi'r Gwastad

Nododd DW ryddhad diweddar y Papur Gwyn Codi'r Gwastad a'i effaith ar y sector gwirfoddol. Mae angen sylw ar lawer o bethau yn y gwaith hwn, a nododd mai Llywodraeth y DU sy'n ei arwain yn hytrach na LLC. Credai y gellid codi nifer o faterion gyda'r Gweinidog. Cytunodd i lunio papur ar hyn o dan arweiniad Jessica Williams.

Dyddiadau y cytunwyd arnynt:

- Drafftiau i CGGC erbyn 18 Mawrth
- Sylwadau erbyn 4 Ebrill
- Cyflwyno i LLC cyn 13 Ebrill

5. Unrhyw fater arall

Dim

Dyddiadau'r cyfarfodydd gyda Gweinidog yr Economi

Dydd Mercher 27 Ebrill 2022 rhwng 10 - 11am (Cyn-gyfarfod 9am)

Dydd Mercher 9 Tachwedd 2022 rhwng 10 - 11am (Cyn-gyfarfod

9am)